

Uned Morwrol



Taflen Wybodaeth Harbwr Abermaw



Craeso

Dilynwch y rheolau isod er mwyn cael diwrnod diogel, pleserus a llawn hwyl

- Lansiwch eich cwch/bad yn yr ardaloedd dynodedig a chadwch at y cyfyngiad cyflymdra o 4 MILLTIR FÔR oddi fewn yr harbwr
- Mae'n rhaid i bob gwch/bad gadw ei ôl-don i'r isafswm oddi fewn i'r harbwr ac o fewn 50m i unrhyw fad arall.
- Cadwch yn glir o unrhyw ardaloedd gwaharddedig a chydymffurfiwch â'r holl is ddeddfau sydd mewn grym – gall eich bywyd a bywydau eraill ddibynnu arni! (gweler y cynllun)
- Mae'n rhaid i fadau pŵer gael eu defnyddio'n gyfrifol a diogel - byddwch yn ystygar o eraill. Bydd Rheolau Rhyngwladol Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr a Rheolau Ffederasiwn Sgio-Dŵr Prydeinig yn cael eu dilyn.
- Cyn mentro allan i'r môr ceisiwch ragolygon y tywydd diweddaraf gan yr Harbwrfeistr a gwrandwch ar eich radio VHF
- Mae'n rhaid cofrestru eich bad pŵer gyda Chyngor Gwynedd cyn caniateir lansio - mae'n rhaid dangos tystiolaeth o yswiriant trydydd parti (lleiafswm £2m) ac mae'n ofynol i chi arddangos yr hawlen cofrestru mewn man amlwg ar eich bad.
- Mae ffi lansio yn daladwy cyn caniateir lansio
- Cadwch i ffwrdd o'r angorfeydd a peidiwch a mordwyo trwyddynt oni bai eich bod yn gwneud eich ffordd at neu oddi wrth eich angorfa – cyflymdra uchaf o 4 MILLTIR MÔR
- Ildiwch pan yn croesi neu'n ymuno ar sianel
- Bydd yn rhaid i bob cwch pŵer sydd yn tynnu sgiwr dŵr gael dau unigolyn ar ei fwrdd – gyrrwr ac arsyllwr
- Peidiwch a gwaredu â unrhyw ysbwriel neu lygredd yn y môr
- Cymrwch ofal gyda gwelyâu, deganau neu ddingis aer oherwydd gall y cerrynt neu wynt alltraeth eich cario yn gyflym allan i'r môr
- Cadwch at gyflymdra diogel a synhwyrol pan yn agosáu at greaduriaid morol. Peidiwch ag aflonyddu bywyd gwyllt.

Ar y lan:

- Parciwch yn y manau dynodedig. Mae'n orfodol i gerbydau symud o ardal y llithrfa yn syth ar ol lansio neu adfer y gwch - peidiwch a chyfyngu mynediad i eraill
- Byddwch yn arbennig o wylidwrs tra'n gyrru neu'n symud eich cerbyd ar y llithrfeydd neu yn y maesydd parcio
- Rhaid i blant gael eu goruchwyllo gan oedolyn bob amser, yn enwedig ger y môr / dŵr.
- Os ydych yn gweld rhywun mewn trafferthion ffoniwch 999 ar unwaith, a gofynwch am Wylwyr y Glannau, yna cysylltwch ar Harbwrfeistr.



- I gael triniaeth am fân anafiadau fe allwch ofyn am gymorth gan yr Harbwrfeistr neu'r Swyddogion Traeth.
- Ewch â'ch ysbwriel gartref neu defnyddiwch y biniau sbwriel cyhoeddus.
- Ni chaniateir cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd Barcud Pŵer, Hwylfyrddio Tir neu Gwibgertiau.
- Byddwch yn wyliadwrus rhag i'r môr eich amgylchynu'n annisgwyl.
- Peidiwch â thyllu na thyrchu i'r twyni tywod – mae'n bosibl iddynt gwmpo yn sydyn ac yn annisgwyl.
- Peidiwch â nofio ar ol bwyta neu yfed alcohol, neu os ydych yn teimlo'n sâl neu'n flinedig.
- Ewch a'ch ysbwriel gartref neu defnyddiwch y biniau sbwriel cyhoeddus
- Peidiwch a cherdded eich ci yn yr ardal gwaharddiad cŵn, na'i adael yn rhydd i faeddu'r traeth – mae bagiau baw cŵn ar gael gan y Goruchwyliwr Traeth.
- Peidiwch ag amharu yn fwriadol ar fywyd gwyllt neu gynefinoedd morol
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd fydd yn amharu ar fwynhad neu ddiogelwch eraill



MAE'N RHAID CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU SYDD WEDI EU HAMLINELLU YN Y DAFLEN HON A CHYDFFURFIO GYDA CYFARWYDDIADAU'R HARBWRFEISTR / SWYDDOGION TRAETH ER DIOGELWCH EICH HUNAIN AG ERAILL.

Byddwch yn Ddiogel

Mae diogelwch yn yr harbwr ac ar y traeth yn bwysig iawn – byddwch yn ymwybodol o'r peryglon a byddwch yn ddiogel.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Harbwrfeistr Abermaw:	01341 280671 neu 07795 012747
Swyddfa Forwrol:	01758 704066
Ymddiriedolaeth Genedlaethol:	01492 860123
Cyngor Cefn Gwlad Cymru:	01248 370444
Asiantaeth Amgylchedd Cymru:	0845 9333111

Mewn Argyfwng Ffoniwch 999



PENMAENPOOL

FLYMDRA UCHAF
4 KTS
MAX SPEED

Wylbr y Mawddach Trail

Gog / North

Allwedd / Key

-  Nofdrych / Life Ring
-  Toiledau / Toilets
-  Llithrfa / Slipway
-  Cymorth Cyntaf
First Aid
-  Gorsaf Drên
Railway Station
-  Beiciau Dŵr / PWc
-  Hwyllo / Sailing
-  Cychod Pwer
Power Boats
-  Dim Beiciau Modur
No Motorcycles

Abermaw / Barmouth

